*CYNGOR BWRDEISTREF SIROL*
***RHONDDA CYNON TAF***
**COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**GWŶS I GYFARFOD O'R CYNGOR**

C.Hanagan
Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Llywodraethol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Pafiliynau
Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach CF40 2XX

Dolen gyswllt: Emma Wilkins - Council Business Unit
(Emma.Wilkins@rctcbc.gov.uk)

**DYMA WŶS I CHI** i gyfarfod o **PWYLLGOR SAFONAU** yn cael ei gynnal yn **Hybrid** ar **DYDD LLUN, 13EG TACHWEDD, 2023** am **10.00 AM.**

Caiff Aelodau nad ydyn nhw'n aelodau o'r pwyllgor ac aelodau o'r cyhoedd gyfrannu yn y cyfarfod ar faterion y cyfarfod er bydd y cais yn ôl doethineb y Cadeirydd. Gofynnwn i chi roi gwybod i Wasanaethau Democrataidd erbyn Dydd Iau, 9 Tachwedd 2023 trwy ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod, gan gynnwys rhoi gwybod a fyddwch chi'n siarad Cymraeg neu Saesneg.

## AGENDA

**Tudalennau**

## 1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â'r Cod Ymddygiad.

Nodwch:

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm y mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, rhaid iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

## 2. COFNODION

Cadarnhau cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Medi 2023 yn rhai

cywir.

**5 - 8**

**ADRODDIADAU'R SWYDDOG MONITRO**

**3. ADOLYGIAD O'R PROTOCOL CYSWLLT RHWNG AELODAU A SWYDDOGION**

Gofyn am sylwadau a barn yr Aelodau ar Brotocol diwygiedig ar gyfer Cyswllt rhwng Aelodau a Swyddogion.

**9 - 42**

**4. ADRODDIAD BLYNYDDOL PANEL DYFARNU CYMRU 2022-2023**

Cyflwyno Adroddiad Blynyddol Panel Dyfarnu Cymru 2022-2023 i'r Aelodau er gwybodaeth.

**43 - 62**

**5. OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU - LLYTHYR AC ADRODDIAD BLYNYDDOL 2022-2023**

Rhoi crynodeb i'r Aelodau o faterion yn ymwneud â safonau ymddygiad Cynghorwyr Sir, Tref a Chymuned fel y nodir yn Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a'i Lythyr Blynyddol i'r Cyngor yma ar gyfer 2022-2023.

**63 - 88**

**6. OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU – CRYNODEB O GWYNION YN ERBYN AELODAU A CHANLYNIAD YR YMCHWILIADAU – 30 AWST 2023 - 31 HYDREF 2023**

Nodwch – ni dderbyniwyd unrhyw gwynion yn ystod y cyfnod adrodd.

**7. OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU – CANLYNIADAU YMCHWILIADAU DIWEDDAR – 'EIN CANFYDDIADAU'**

Trafod crynodeb o ganlyniadau ymchwiliadau ynghylch achosion honedig o dorri Cod Ymddygiad yr Aelodau fel y'i cyhoeddwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru o dan y pennawd 'ein canfyddiadau' ar ei wefan. Roedd y rhain ar gyfer y cyfnod o 30 Awst 2023 i 31 Hydref 2023.

**89 - 94**

**8. CAIS AM OLLYNGIAD – CYNGHORYDD Y FWRDEISTREF SIROL M. POWELL**

Trafod cais am ollyngiad a wnaed yn unol â Rheoliadau Pwyllgorau

Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001.

**95 - 98**

**9. MATERION BRYS**

Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Cadeirydd, yn faterion brys yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.

**Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Llywodraethol**